# 6



Dyffryn Wysg o Dor y Foel

# Egwyddorion Arweiniol

**Mae'r bennod hon yn cyflwyno cyfres o egwyddorion arweiniol sydd wedi bod yn sylfaenol wrth ddatblygu'r weledigaeth, nodau, amcanion strategol a gweithredoedd yn y Cynllun hwn. Dyma'r elfennau canolog sy'n rhedeg trwy'r Cynllun Rheoli sy'n ei rwymo at ei gilydd. Dylid adlewyrchu'r egwyddorion arweiniol hyn wrth gyflawni'r deilliannau y manylwyd arnynt yn y cynllun hwn. Maent yn mynd i'r afael â'r broses gyflawni gymaint ag y maent yn mynd i'r afael â'r deilliannau arfaethedig.**

## 6.1. Cynaliadwyedd

Ni ddylai gweithredu i ddiwallu anghenion dynoliaeth heddiw gyfaddawdu anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae cynaliadwyedd yn ymwneud â pharchu terfynau adnoddau naturiol y blaned, ei hamgylchedd a'i bioamrywiaeth wrth ystyried pryderon cymdeithasol ac economaidd. Mae'r ddau ddiben statudol y mae Parciau Cenedlaethol wedi'u dynodi ar eu cyfer - cadw a gwella eu harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol, a hybu cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau'r rhinweddau arbennig - wedi'u cysylltu yn annatod ag egwyddor cynaliadwyedd. Ond, nid yw'r berthynas hon yn golygu bod y dasg o roi cynaliadwyedd ar waith yng nghymdeithas fyd-eang heddiw yn cynnig llai o her.

Mae gyrwyr newid ar raddfa eang fel twf poblogaeth byd-eang, newid yn yr hinsawdd, disbyddiad tanwydd ffosil, llygredd dŵr a dyddodiad asid yn gwaethygu pryderon rhanbarthol a lleol. Nes at adref mae'r materion pwysig yn cynnwys newid polisïau ac arferion amaethyddol, cynhwysiant cymdeithasol, arallgyfeirio ffermydd, tai fforddiadwy, opsiynau ynni amgen a mynediad pobl anabl i gefn gwlad. Rhaid dylunio nodau, amcanion a gweithredoedd i weithredu ar y raddfa sydd fwyaf tebygol o fynd i'r afael â phob problem. Ni ellir mynd i'r afael â materion ar raddfa eang yn y Parc, fel newid yn yr hinsawdd, heb weithredoedd ar raddfa dirwedd. Technegau rheoli ucheldiroedd a thir comin a ddyluniwyd i ddelio ag effeithiau newid yn yr hinsawdd a ragfynegwyd a fydd mwyaf effeithiol, ond bydd angen cydweithio rhwng nifer o randdeiliaid i sicrhau eu llwyddiant. Efallai y bydd yn well mynd i'r afael â materion lleol fel tai fforddiadwy trwy ddilyn dull safle wrth safle o weithredu gan gynnwys cymunedau lleol, Awdurdodau Tai a sefydliadau perthnasol nad ydynt yn gwneud elw. Rhaid ystyried bioamrywiaeth ar raddfa dirwedd neu raddfeydd mwy, gan gynnwys Rhwydweithiau Parc Cenedlaethol ac ymdrechion cydweithredol nifer o asiantaethau a sefydliadau.

Rhaid rheoli Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mewn ffordd sy'n hybu hanfod y syniad hwn o gynaliadwyedd. Mae cynaliadwyedd yn hanfodol er mwyn darparu Parc Cenedlaethol i genedlaethau'r dyfodol sy'n gallu, o leiaf, gael ei fwynhau a'i ddefnyddio fel y mae heddiw. I gyflawni hyn, rhaid integreiddio anghenion amrywiol y rheiny sy'n mwynhau, yn byw ac yn gweithio yn y Parc â gofynion adnoddau ac amgylcheddau arbennig y Parc Cenedlaethol.

Bydd pontio cynaliadwy i'r dyfodol yn golygu y bydd Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn gyson â'r cysyniad cynaliadwyedd hwn. I hwyluso hyn, mae'r Cynllun Rheoli hwn yn destun i werthuso er mwyn asesu'r effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol posibl sy'n deillio o'r bwriadau, nodau, polisïau a gweithredoedd arfaethedig. Mae pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod y cydbwysedd cywir yn bodoli rhwng pwysau ac anghenion, cadw a gwella, a chyfleoedd a mwynhad.

## 6.2. Cynnwys Cymunedau

Wrth gwrs, ni ellir rheoli'r Parc yn gynaliadwy heb fynd ati i gynnwys pobl leol. Yn wir mae egwyddorion rheoli ardal warchodedig Categori V (**gweler Atodiad 4**) yn dweud bod yn *"rhaid ymgymryd â rheolaeth gydag a thrwy bobl leol, ac yn bennaf ar eu cyfer a chanddynt."*[15] Mae cyfeiriad at bobl leol

15. Phillips, A. 2002. The World Conservation Union Management Guidelines for IUCN Category V Protected Areas: Protected Landscapes/Seascapes No. 9. World Commission on Protected Areas (WCPA). IUCN, Gland, Y Swistir a Phrifysgol Caerdydd, DU.

yma’n cynnwys y gymuned ehangach yn y Parc ac o’i amgylch yn ogystal â phobl eraill sydd â diddordeb brwd ynddo. Mae gan APCBB a chyrff statudol neu lywodraethu eraill oblygiad i hwyluso cynnwys pobl leol wrth lunio penderfyniadau rheoli. Yn gyffelyb, mae gan bobl leol gyfrifoldeb i gymryd rhan weithredol yn y broses reoli, hynny yw cymryd cyfrifoldeb am y Parc. Mae pob rhanddeiliad yn chwarae rôl bwysig wrth gyflawni amcanion y Parc.

Mae’r dull cydweithredol hwn o reoli Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn dibynnu ar:

- Randdeiliaid deallus sydd â diddordeb yn y Parc ac yn dymuno adeiladu ar eu gallu i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau;
- Darparu cyfleoedd i randdeiliaid gymryd rhan yn y broses o lunio penderfyniadau rheoli a’u gwneud yn ymwybodol o’r cyfleoedd hyn (e.e., fforymau ymgynghorol ardal);
- Rhoi gwybod i randdeiliaid am gynnydd yn erbyn y Cynllun;
- Gweithio gyda thrawstoriad cynrychioliadol o randdeiliaid;
- Anogaeth a chefnogaeth barhaus i gael cymunedau lleol i gymryd rhan weithredol mewn mentrau yn rheolaeth y Parc a/neu er budd y gymuned ehangach; a
- Gweithdrefnau agored, eglur ac atebol a seiliwyd ar egwyddorion democrataidd.

Mae’r ddogfen hon yn gynnyrch yr egwyddorion hyn ar waith.

## 6.3. Cynhwysiant Cymdeithasol

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) yn rhagweld y bydd tri Pharc Cenedlaethol Cymru yn cael eu mwynhau a’u coleddu gan drawstoriad llawn o’r gymdeithas. Mae hyn yn gofyn i’r APCau a’u partneriaid ymgysylltu’n fwy effeithiol



Gwibdaith cerddwyr anabl ar Fynydd Illtyd

â’r rheiny sydd dan anfantais yn gymdeithasol a chorfforol, lleiafrifoedd ethnig, cymunedau trefol, plant a grwpiau eraill nad ydynt wedi mwynhau’r Parciau yn draddodiadol. Ond yn naturiol ni fydd APCBB a’i bartneriaid yn dangos unrhyw duedd tuag at unrhyw grŵp penodol ac nid yw’n dymuno rhoi un parti dan anfantais er budd un arall.

Yn 2005 cytunodd Awdurdodau tri Pharc Cenedlaethol Cymru i strategaeth ar gyfer hyrwyddo cynhwysiant cymunedol ym mhob agwedd ar eu gwaith. Mae’r strategaeth yn cydnabod y gall APCau hybu cynhwysiant cymdeithasol yng nghyd-destun eu dyletswydd a dibenion statudol yn unig, ac y bydd cynlluniau gweithredu manwl yn amrywio rhwng parciau. Gan ystyried yr amodau hyn, mae’r strategaeth yn manylu ar dri nod allweddol gall pob APC gofleidio i hybu cynhwysiant cymdeithasol wrth ymarfer eu dibenion, dyletswydd a darparu gwasanaethau. Sef:

- Mabwysiadu thema drawsbynciol ar draws holl weithgareddau’r APC sy’n cydnabod natur gymhleth ac aml-ddimensiynol allgau cymdeithasol (h.y. grwpiau neu unigolion sy’n gallu cael eu heithrio o gyfleoedd gan amrywiaeth o ffactorau cydgysylltiol, gan gynnwys ffactorau economaidd, canfyddiadol a/neu ffisegol), ac yn ceisio hybu cynhwysiant cymdeithasol yn holl waith yr APC;
- Meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol a cheisio lleihau allgau cymdeithasol oherwydd tlodi, diffyg cyflogaeth, diffyg gwasanaethau, iechyd gwael, anabledd, diffyg addysg, rhwystrau seicolegol a

diwylliannol neu anfantais arall a gweithio yn benodol â grwpiau eithriedig ac â sefydliadau sy'n bartneriaid i'r perwyl hwn; a

- Lledu mynediad ar gyfer cymuned ehangach pobl Cymru, y DU a thu hwnt, sy'n gallu cael eu heithrio o ddeall neu fwynhau rhinweddau arbennig y Parciau o ganlyniad i'r rhwystrau a restrwyd uchod.

Ymhellach i'r nodau hyn, mae LICC yn pwysleisio tri phwynt ychwanegol i'r APCau ystyried yng nghyd-destun cynhwysiant cymdeithasol:

1. Bod y Parciau yno i bawb eu mwynhau. Er bod Llywodraeth y Cynulliad eisiau i'r APCau ymestyn allan i drawstoriad ehangach o gymdeithas, dylid ymgymryd â hyn ar y sail y dylid annog pobl o bob cefndir a gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael croeso yn yr ardaloedd arbennig hyn.
2. Bod cadwraeth arbennig y Parciau a nodweddion eraill yn golygu y bydd angen rheoli niferoedd ymwelwyr yn effeithiol. Felly efallai ni fydd pob rhan o'r Parciau'r un mor hygyrch - neu'r un mor briodol ar gyfer gweithgareddau hamdden - ar hyd y flwyddyn. Gall menter APC/Croeso Cymru ar y cyd ar dwristiaeth gynaliadwy chwarae rhan yma.
3. Fel nodwyd yn y weledigaeth, bod pob un o'r Parciau yn agos at gymunedau trefol pwysig ac â photensial arwyddocaol i gyfoethogi bywydau.[16]

Mae'r datganiad gweledigaeth ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn adlewyrchu'r dyheadau hyn ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol, ac, o ganlyniad, cynhwysiant cymdeithasol yw un o'r egwyddorion arweiniol sydd wrth wraidd y polisïau sy'n deillio o'r Cynllun Rheoli hwn.

16. LICC. 2007. Datganiad Polisi ar gyfer Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Parc Cenedlaethol yng Nghymru.



**Teithiau cerdded wedi'u tywys i bobl rhannol ddall**

## 6.4. Partneriaethau Cydlynol

Mae rheolaeth gynaliadwy'r Parc Cenedlaethol yn golygu dealltwriaeth gynhwysfawr o amrywiaeth eang o ffactorau naturiol a diwylliannol yn ogystal â dealltwriaeth o'r cydberthnasau rhyngddynt. Ni all unrhyw un endid dod yn arbenigwr ar bob ffased o reolaeth Parc; ac ni all unrhyw un asiantaeth neu sefydliad weithredu ar ei phen/ben ei hun heb effeithio ar weithredoedd pobl eraill. Mae'r galwadau sy'n gysylltiedig ag agendâu polisi yn parhau i gynyddu, ond nid yw'r adnoddau (amser, arian a phersonél) sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion cynyddol yn gwneud. O ganlyniad, mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol ar gyfer rheolaeth effeithiol, tymor hir y Parc Cenedlaethol.

I sicrhau bod y Parc yn cael ei reoli yn gynaliadwy a hwyluso cyflawniad dibenion a dyletswydd statudol y Parc, rhaid i'w rhanddeilaid gynnal partneriaethau agos ac effeithiol. Mae Adran 62 (2) Deddf yr Amgylchedd 1995 yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar bob awdurdod perthnasol i ystyried dibenion statudol Parciau Cenedlaethol y DU wrth wneud penderfyniadau neu ymgymryd â gwaith yn y Parc neu'n agos ato. Ymhlith partneriaethau perthnasol APCBB mae unrhyw Weinidog y Goron, unrhyw gorff cyhoeddus, unrhyw ymgymerydd statudol neu unrhyw unigolyn sy'n dal swydd gyhoeddus. Mae'r ddyletswydd hon yn dwyn sylw at bwysigrwydd cynnal partneriaethau rhwng y cyrff hyn. Er bod APCBB eisoes yn darparu llawer o'u gwaith mewn



Cilfan ger Storey Arms



Golygfa ger Crai

partneriaeth â'r buddiannau hyn, mae LICC yn awyddus i ddefnyddio dyletswydd Adran 62(2) yn effeithiol i helpu i fod yn sylfaen i weithio mewn partneriaeth hyd yn oed cryfach - gan gydnabod bod y Parc yn ased arwyddocaol ar gyfer Cymru a'r DU ac nid yw'n gyfrifoldeb unrhyw un corff statudol yn unig.

## 6.5. Rheolaeth Integredig

Yn draddodiadol, mae cadwraeth a rheolaeth ardaloedd gwarchodedig wedi cael eu cynnal mewn dull tameidiog neu arunig. Yn y gorffennol, yn aml mae rheolaeth bywyd gwyllt wedi canolbwyntio ar gadwraeth rhywogaethau heb roi sylw priodol i brosesau ecosystem a thirwedd. Nid yw coetiroedd a gwlypdiroedd wedi cael eu hystyried yn gydrannau hanfodol amaethyddiaeth. Gwelwyd dehongliad ac addysg fel dim ond "ychwanegion" at gadwraeth adnoddau a gwasanaethau cynllunio yn hytrach na rhan ganolog o reolaeth adnoddau cyfannol.

Nid yw'r dull datgymalog hwn o ymdrin â rheolaeth adnoddau a chadwraeth yn gynaliadwy. Mae holl gydrannau'r amgylcheddau naturiol a diwylliannol yn gyd-ddibynnol. Mae erydiad pridd yn ucheldiroedd PCBB yn effeithio ar yr amgylchedd cyfagos ond hefyd yn dylanwadu ar ansawdd a swm y dŵr yng Nghymoedd De Cymru, er enghraifft. Bydd gan senarios fel hyn oblygiadau hyd yn oed mwy ar gyfer y Parc a'i gwmpasoedd yng ngoleuni rhagfynegiadau newid yn yr hinsawdd.

Y newyddion da yw bod pethau'n newid. Mae Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE yn gofyn i wledydd Ewrop ddilyn dull integredig o ymdrin â rheolaeth basn afon, er enghraifft. Mae'r system hon mewn mwy o gytgord â gyrwyr naturiol newid, a gellir ei defnyddio i ystyried materion yn ogystal â dŵr, hybu partneriaethau gweithredol ar draws ffiniau gwleidyddol. Mae Adran 40 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys APCBB, i roi sylw i gadwraeth bioamrywiaeth wrth gyflawni eu swyddogaethau. I'r Parc Cenedlaethol, mae'r ddyletswydd hwn yn ymestyn y tu hwnt i gadwraeth natur i gynnwys gwasanaethau cynllunio, twristiaeth, hamdden awyr agored, lles cymunedol a meysydd eraill ffocal. Yn gyffelyb, mae LICC yn cymryd camau i gefnogi rheolaeth integredig trwy hen gynlluniau amaeth-amgylchedd Tir Gofal a Thir Cynnal a chynllun amaeth-amgylchedd newydd Glastir, gan gynorthwyo'r Parc i gyflawni ei nodau cadwraeth cyffredinol. Mae polisïau a chynlluniau eraill rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol yn dilyn yr un drefn.

Rhan o'r datrysiad yn unig yw'r cynlluniau amaeth-amgylchedd

hyn hyd yn oed. Ffermwyr yw prif dirfeddianwyr a rheolwyr y Parc; felly rhaid i ffermio hyfyw, cynaliadwy, gael ei ystyried yn fwy cyfannol. Mae ffermio yn rhan annatod o gynhaliaeth dymor hir rhinweddau arbennig y Parc ac mae angen ei gydnabod a'i gefnogi fel maen clo yng nghynaliadwyedd tymor hir y Parc.

Gall rhoi strategaethau rheolaeth integredig ar waith yn lleol gynnig her, yn enwedig gan nad yw'r isadeiledd gwleidyddol ac economaidd yn annog y ffordd hon o feddwl ac yn wir maent yn anghyson yn y tymor hir. Mae integreiddio'n gofyn i bartneriaid gydweithio yn fwy agos, meddwl yn fwy cyfannol, rheoli ar draws ffiniau gwleidyddol i ystyried cydrannau gweithredol y dirwedd (e.e., dalgylchoedd) a meithrin cyfranogiad cymunedol gweithredol mewn materion sy'n ymwneud ag adnoddau lleol. Gellir cyflawni'r uchelgeisiau hyn orau trwy weithredu, ymchwilio a monitro prosiectau arddangosiad a ddyluniwyd yn dda. Mae'r dull hwn o weithredu yn caniatáu i APCBB, ei bartneriaid a'r cymunedau lleol i arbrofi â datrysiadau arloesol i broblemau ymarferol mewn dull dan reolaeth - datrysiadau sy'n helpu cymunedau lleol i ddiwallu eu hanghenion ynni, addasu i newid yn yr hinsawdd, datblygu yn gynaliadwy a gwella bioamrywiaeth ar yr un pryd, er enghraifft. Wrth wneud hyn, bydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn arwain y ffordd trwy fod yn enghraifft wrth fodloni diddordeb brwd LICC i Barciau Cenedlaethol Cymru archwilio ac enghreifftio'r ymarferion rheoli gorau yng Nghymru.

Hefyd mae adnoddau naturiol a diwylliannol y Parc yn ymestyn y tu hwnt i'w ffiniau gweinyddol, er enghraifft trwy lif dŵr yfed mewn afonydd i gymunedau i lawr yr afon o'r Parc. O ganlyniad, mae rheolaeth integredig hefyd yn awgrymu ymestyn y tu hwnt i ffiniau'r Parc i gynnwys cymunedau ac adnoddau sy'n effeithio ar reolaeth y Parc neu mae rheolaeth y Parc yn effeithio arnynt. Bydd ystyried "dalgylch" y Parc yn sicrhau rheolaeth gynaliadwy o'r adnoddau hyn a pharhad yn narpariaeth buddion i'r gymuned ehangach.

Mae APCBB yn gweithio'n agos â phartneriaid i hwyluso



Tirwedd wedi'i ffermio, Canol y Bannau

rheolaeth integredig o'r Parc a'i adnoddau. Cynlluniwyd y Cynllun hwn i hybu'r ymdrechion hyn.

## 6.6. Adfywiad

Mae adfywio cymunedau, boed yn drefol neu'n wledig, yn ganolog i ddatblygiad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ehangach. Dyluniwyd y cynllun hwn i hybu egwyddorion adfywio, â llawer o'r gwahanol adrannau yn cyfrannu strategaethau a pholisïau sy'n cefnogi adfywiad sy'n gydnaws â dynodiad Parc Cenedlaethol.

Nid yw adfywio ardal yn ymwneud ag estheteg yn unig. Mae gwir angen adeiladu cymunedau sy'n gystadleuol yn economaidd, yn gynhwysol yn gymdeithasol a lle mae pobl eisiau byw, buddsoddi a mwynhau eu hamdden. Ffactor allweddol wrth gyflawni cymunedau cynaliadwy ym Mannau Brycheiniog yw gwahanolrwydd yr ardal, a "naws am le" cryf aneddiadau unigol. Gall adfywio amgylchedd adeiledig a naturiol yn yr aneddiadau hyn yn ffisegol greu hyder o ran cymuned a busnes sy'n ofynnol i helpu'r economi lleol i weithredu yn effeithiol, ac yn eu tro cadw a denu pobl a

*"Tirwedd ddiwylliannol lle mae cysylltiad amlwg rhwng hanes, pobl, diwylliant a gweithgaredd"*




Côr Meibion Aberhonddu




Cyfarfod cymunedol



Gŵyl Fwyd Bannau Brycheiniog

buddsoddiad. Mae adfywio ardal angen cynllun tymor hir, cyd-drefnus. Hefyd mae buddsoddiad o'r fath angen cefnogaeth y gymuned leol i fod yn hollol effeithiol. Mae hyn, yn ei dro, angen partneriaethau effeithiol a rhwydweithiau cefnogi i alluogi adeiladu gallu lleol, helpu pobl leol i ddatblygu sgiliau ac adeiladu hyder. Y nod yw gwella'r ysbryd cymunedol a naws am le, yn ogystal â'r ymddangosiad ffisegol a gwneud aneddiadau'n gynaliadwy yn y dyfodol.

Mae gan adfywio gwledig nodweddion gwahanredol. Yn aml mae ardaloedd gwledig yn dioddef gan golled gwasanaethau lleol, gan gynnwys cau ysgolion, ysbytai, swyddfeydd post, siopau a thafarndai, a cholled cludiant cyhoeddus. Weithiau mae hyn yn gysylltiedig â newidiadau o ran oedran a chymysgedd cymdeithasol trigolion pentref. Efallai y bydd adfywio gwledig yn ceisio gwella aneddiadau gwledig trwy leihau mudo trwy wella mynediad cymunedau lleol at wasanaethau a chyfleusterau. Nid oes yn rhaid i adfywio fod ar raddfa fawr. Yn aml mae prosiectau bach mewn trefi a phentrefi yn fwy effeithiol pan fyddant yn cael eu cyfuno ag adfywio ffisegol adeiladau, mannau cyhoeddus a chyfleusterau cymunedol ac adfywio gwahanolrwydd lleol. Gall prosiectau o'r fath ar raddfa fach gyfuno adfywio ffisegol ag ymgysylltiad cymunedol, cynhwysiant cymdeithasol a mentrau lleol.

Mae gan gymunedau, gan gynnwys cynghorau tref a chymuned a sefydliadau gwirfoddol, ran fawr i'w chwarae mewn adfywio. Gallant flaenoriaethu sut mae adnoddau'n cael eu defnyddio yn lleol yn ogystal â helpu i greu naws am le trwy hybu digwyddiadau lleol gwahanredol. Mae hyn i gyd yn ychwanegu at apêl ardal ac yn cyfoethogi'r gymuned. Hefyd gall grwpiau cymunedol annog mentrau busnes sy'n helpu llawer ag adfywio ardal trwy greu swyddi, ag unrhyw all-ffynonellu yn aml yn cael ei wneud yn lleol gan gadw arian yn yr ardal. Hefyd gall cymunedau ddewis gwneud cais am gynlluniau grant sy'n cael eu noddi gan adrannau'r llywodraeth ac asiantaethau eraill i ariannu prosiectau adfywio lleol. Yn y pen draw, mae llawer o opsiynau ar gael i gymunedau lleol a fydd yn gwella'r naws am le lleol a'u lles. Mae'r Cynllun hwn



**Talgarth**

yn helpu i adeiladu sylfaen gadarn ar gyfer gwneud hyn.

Gall prosiectau adfywio lleol gyflawni nifer o'r themâu yn y cynllun hwn:

- Gall adfywio helpu aneddiadau i ddod yn fwy cynaliadwy; trwy adeiladu gallu lleol a chynyddu eu hapêl, mae'n fwy tebygol y bydd trigolion newydd yn cael eu denu i'r ardal, a gellir lleihau nifer y trigolion sydd eisoes yn bodoli sy'n allfudo;
- Mae gan APCBB ddyletswydd i'r rheiny sy'n byw yn y parc ac nid y rheiny sy'n ymweld yn unig; mae gan adfywio ran fawr i'w chwarae o ran cynhwysiant cymdeithasol, helpu'r rheiny sy'n byw yn y Parc i gyrchu gwasanaethau a chyfleusterau;
- Yn anaml bydd cynlluniau adfywio'n cael eu cyflawni trwy gael un asiantaeth neu gorff yn gweithredu ar ei phen/ben ei hun; mae'n cymryd nifer o asiantaethau'n cydweithio ac yn cyfuno eu hadnoddau i gynhyrchu deilliannau llwyddiannus.

Ar hyn o bryd mae cynlluniau adfywio sy'n defnyddio'r egwyddorion hyn yn cael eu datblygu yn y Parc Cenedlaethol ac o'i amgylch. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dynodi ardal Blaenau'r Cymoedd, sy'n cynnwys cymunedau yn ne Bannau Brycheiniog, yn Ardal Adfywio Strategol. Hefyd, mae Cynllun Gofodol Cymru, wrth osod cyd-destun strategol ar gyfer gweithgareddau datblygu ac adfywio, yn cydnabod bod Aberhonddu yn brif anheddiad allweddol i'w ddatblygu a ffocws twristiaeth, a hefyd mae Crug Hywel, Y Gelli Gandryll a Thalgarth wedi'u nodi fel aneddiadau allweddol. Bydd angen i gynigion adfywio ar gyfer unrhyw ardal alinio'r amrywiaeth o flaenoriaethau rhanbarthol y cytunwyd arnynt ag anghenion y cymunedau lleol. Gyda'u hamrywiaeth eang o rymoedd a chyfrifoldebau, fel arfer bydd disgwyl i Awdurdodau Unedol chwarae rhan arweiniol mewn mentrau mwy. Hefyd mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn chwarae rôl werthfawr, gan adlewyrchu dibenion, dyletswydd a rhinweddau arbennig y Parc. Er enghraifft, mae'r Awdurdod eisoes yn ariannu prosiectau cymunedol bach trwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Hefyd mae rôl ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol â'i bolisïau integredig sy'n cydbwyso dyrannu tai newydd, tai fforddiadwy a gofynion tir cyflogaeth. Mae'n cynnwys polisïau ar gyfer defnyddio rhwymedigaethau cynllun sy'n gallu cyfrannu at fentrau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd cynaliadwy cyn belled â'u bod yn gydnaws â dynodiad y Parc Cenedlaethol.